Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Kingsland
# Caergybi
# Ynys Môn
# LL65 2TH

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Kingsland yn ardal Kingsland yng Nghaergybi ar Ynys Môn. Ar hyn o bryd, mae 186 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 28 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Daw bron pob un o’r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Ar hyn o bryd, mae wyth o athrawon amser llawn yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol saith dosbarth, gan gynnwys y dosbarth meithrin rhan-amser. O’r rhain, mae pump ohonynt yn ddosbarthiadau un oedran a dau ohonynt yn ddosbarthiadau oedran-cymysg. Mae tua 21% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy’n debyg i gyfartaledd Cymru.

Mae’r ysgol yn nodi bod gan tuag 16% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy’n is na’r cyfartaledd yng Nghymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ymgymerodd y pennaeth â’r swydd ym Medi 2008, a chynhaliwyd yr arolygiad diwethaf yn Ebrill 2010.

Y gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Kingsland yn 2014-2015 yw £3,630 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd ar Ynys Môn yw £9,552 a’r lleiafswm yw £2,870. Mae Ysgol Gynradd Kingsland yn safle 36 o’r 48 ysgol gynradd ar Ynys Môn o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud o leiaf y cynnydd disgwyliedig wrth iddynt symud trwy'r ysgol
- Mae medrau dwyieithog y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda
- Mae agweddau disgyblion at ddysgu yn gadarnhaol ac mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda iawn
- Mae athrawon yn datblygu medrau disgyblion ar gyfer dysgu yn dda
- Mae ansawdd yr addysgu yn gyson uchel
- Mae'r cymorth ac arweiniad y mae disgyblion yn eu cael yn effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae gan y pennaeth a'r llywodraethwyr ymrwymiad cryf i godi safonau
- Mae gwaith tîm effeithiol rhwng yr holl staff a pharodrwydd i dderbyn syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio
- Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu, mae'n glir ynghylch yr hyn y mae angen iddi ei wneud i wella deilliannau i ddisgyblion, ac mae blaenoriaethau'n adlewyrchu hyn yn glir
- Mae partneriaethau cryf â rhieni a'r gymuned ehangach yn helpu i wella ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni
- Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda iawn

## Argymhellion

A1 Gwella cyrhaeddiad disgyblion mwy abl mewn datblygiad mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen

A2 Gwella cyrhaeddiad disgyblion mwy abl mewn gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2

A3 Gwella presenoldeb

A4 Sicrhau bod marcio athrawon yn cofnodi'r hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella eu gwaith er mwyn iddynt ddeall eu targedau ar gyfer gwella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ddysgwyr awyddus a brwdfrydig, ac yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yn eu gwersi ac wrth drafod eu gwaith, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi ei ddysgu.

Mae medrau llythrennedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda, ac maent yn eu defnyddio'n effeithiol i wella eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn siarad yn hyderus mewn ystod eang o sefyllfaoedd â staff, ymwelwyr ac â'i gilydd, ac yn mynegi eu barn yn hyderus. Mae llawer ohonynt yn gwrando'n ofalus ar syniadau eu ffrindiau ac yn canolbwyntio am gyfnodau hir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfrannu'n effeithiol mewn gwersi, ac yn defnyddio eu medrau llafar yn bwrpasol i roi esboniadau clir. Maent yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn gall i safbwyntiau pobl eraill.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Mae gan bron pob un ohonynt agwedd gadarnhaol tuag at ddarllen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn darllen a rhuglder, cywirdeb a dealltwriaeth gynyddol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn rhugl, yn gywir ac â mynegiant da. Maent yn siarad yn rhwydd am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi neu nad ydynt yn eu hoffi, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gymeriadau a storïau. Maent yn defnyddio eu medrau darllen yn dda i ymchwilio i wybodaeth o lyfrau a thrwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da â'u medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn meysydd dysgu gwahanol. Maent yn trefnu brawddegau'n effeithiol i ddisgrifio digwyddiadau, ac yn ysgrifennu storïau ac adroddiadau syml, gan ddefnyddio ystod addas o atalnodi â mwyfwy o gywirdeb. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio ystod o strwythurau brawddegau a geirfa ddiddorol, ac yn ysgrifennu'n hyderus ac yn gywir mewn amrywiaeth o ffurfiau. Maent yn atgyfnerthu ac ymestyn eu medrau ysgrifennu yn dda, gan gynhyrchu darnau o waith estynedig o ansawdd da ar draws y cwricwlwm, ond yn enwedig yn eu prosiectau hanes. Mae safon cyflwyniad a llawysgrifen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyson dda.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn drefnus ar lefel briodol ar gyfer eu hoedran a'u gallu, wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un ohonynt yn gwneud defnydd effeithiol iawn o adnoddau ymarferol i helpu i ddatblygu ymresymu mathemategol, er enghraifft wrth ddatblygu bondiau rhif cynnar. Maent yn defnyddio'r rhain yn ddychmygus ar draws meysydd dysgu eraill. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae gan y rhan fwyaf o

ddisgyblion ddealltwriaeth dda o werth lle, ac mae eu strategaethau datrys problemau yn datblygu'n dda. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cymhwyso eu medrau mesur yn effeithiol mewn cyd-destunau gwahanol, yn enwedig wrth gynnal archwiliadau gwyddonol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall y cysylltiad rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau.

Mae medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda iawn. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau ac, erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn cynnal trafodaethau syml ag oedolion ac â'i gilydd yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu ystod eang o eirfa ac yn siarad yn hyderus y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae medrau darllen ac ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y deilliant disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn llythrennedd wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o ysgolion tebyg. Mewn datblygiad mathemategol, mae perfformiad wedi amrywio hefyd, gan symud yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 50% is. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y deilliant uwch na'r disgwyl wedi symud yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 50% is o ysgolion tebyg ar gyfer llythrennedd, a rhwng y 50% is a'r 25% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig mewn Saesneg a gwyddoniaeth dros y pedair blynedd diwethaf wedi symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o ysgolion tebyg. Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi ei symud rhwng y 25% uchaf a'r 50% is dros yr un cyfnod. Mae perfformiad ar y lefel uwch na'r disgwyl mewn Saesneg a mathemateg wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad disgyblion ar y lefel uwch wedi rhoi'r ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn isel iawn, ac felly nid yw cymharu eu perfformiad â pherfformiad disgyblion eraill yn ystyrlon.

At ei gilydd, mae perfformiad merched yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn well na pherfformiad bechgyn.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos gwybodaeth dda am fwyta ac yfed yn iach ac agweddau cadarnhaol tuag atynt. Maent yn deall pwysigrwydd bod yn egnïol ac yn credu bod yr ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'w hannog i wneud hynny. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Maent yn gwrtais ac yn ystyriol, ac yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau, ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion wrth iddynt rannu barnau a syniadau. Maent yn falch o'u gwaith a'u hysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ystod addas o fedrau sy'n eu helpu i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Maent yn wynebu tasgau newydd yn hyderus, ac yn aml yn cyfranogi mewn cynllunio eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ddisgyblion sydd â dealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith, ac sy'n ymwybodol o'u targedau ar gyfer gwella.

Mae medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd disgyblion yn datblygu'n dda iawn trwy weithgareddau dyddiol, cysylltiadau â busnesau lleol ac unigolion o'r gymuned. Trwy weithgareddau fel cyfarfodydd y cyngor ysgol, teithiau diogelwch, a defnyddio holiaduron, mae disgyblion o bob oedran yn credu eu bod yn cael dylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol. Maent yn teimlo y caiff eu syniadau a'u hawgrymiadau eu hystyried yn ddifrifol, a'u bod yn chwarae rhan weithredol mewn penderfyniadau.

Mae cyfraddau presenoldeb yn isel o gymharu ag ysgolion tebyg, gan roi'r ysgol yn y 25% isaf ar gyfer dwy o'r pedair blynedd diwethaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn cydweithio'n dda i gynllunio rhaglenni diddorol sy'n bodloni anghenion pob disgybl yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau a phrofiadau cyfoethogi trwy raglen o ymweliadau ac ymwelwyr â'r ysgol sydd wedi ei chynllunio'n dda. Trwy'r rhain, caiff disgyblion gyfleoedd helaeth i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u hardal leol a mannau o ddiddordeb ymhellach i ffwrdd. Maent yn cynnwys ymweliadau â'r warchodfa natur leol a Chanolfan Thomas Telford, sy'n cyfoethogi dysgu i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o glybiau fel yr Urdd, sy'n chwarae rhan sylweddol mewn datblygu medrau personol a chymdeithasol disgyblion.

Mae cynllunio yn ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn dda. Mae'n nodi llawer o ffyrdd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh i gynorthwyo ac ymestyn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae darpariaeth yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn dda trwy ddarparu ystod addas o weithgareddau datrys problemau.

Mae darpariaeth dda iawn i ddatblygu medrau Cymraeg. Mae athrawon yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus o ran defnyddio'r Gymraeg â'i gilydd a chydag ymwelwyr.

Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd helaeth i godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd ailgylchu, arbed ynni a sut i wella'r amgylchedd yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Mae gwaith yr ysgol yn llwyddiannus o ran esbonio pwysigrwydd masnach deg i ddisgyblion, a'r effaith y gall ei chael ar helpu ffermwyr a masnachwyr mewn gwledydd tlotach. Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill yn dda trwy astudio gwledydd gwahanol.

## Addysgu: Da

Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn darparu ystod symbylol o weithgareddau sy'n gweddu i anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae athrawon yn cynllunio pob gwers yn drylwyr, gan nodi amcanion dysgu clir. Mae bron pob gwers yn adeiladu ar brofiadau dysgu blaenorol yn llwyddiannus.

Mae'r holl oedolion yn yr ysgol yn ddelfryd ymddwyn dda i ddisgyblion ac mae ganddynt berthynas waith gadarnhaol iawn â nhw. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn holi disgyblion yn fedrus i ymestyn eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Maent yn cydweithio'n effeithiol i hyrwyddo safonau da a'r ymddygiad da iawn sy'n cael ei ddangos gan ddisgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob disgybl.

Mae'r holl athrawon yn darparu adborth llafar rheolaidd a chlir i ddisgyblion, sy'n eu helpu i ddeall beth i'w wneud a sut i wella eu gwaith. Mae disgyblion yn hyderus iawn i ofyn am gymorth, yn ôl yr angen. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn gyson, gan ddefnyddio sylwadau cadarnhaol. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi gwybod i ddisgyblion yn rheolaidd beth y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae'r holl athrawon yn olrhain perfformiad disgyblion yn effeithiol ac yn gosod targedau clir i helpu i lywio eu cynllunio ar gyfer disgyblion. Mae gan yr ysgol gofnodion manwl iawn ar gyfer pob disgybl, sy'n cwmpasu pob agwedd ar waith. O ganlyniad, mae pob disgybl yn cael cymorth wedi ei dargedu'n dda, naill ai yn yr ystafell ddosbarth neu drwy raglenni ymyrraeth sydd wedi eu cynllunio'n dda.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd pob plentyn ac yn bodloni gofynion statudol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar, ddymunol a gofalgar, sy'n rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu iechyd a lles disgyblion. Mae'n gwneud trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn galluogi disgyblion i gadw'n heini. Mae enghreifftiau da yn cynnwys annog disgyblion i ymweld â'r siop ffrwythau ddyddiol a'r cyngor sy'n cael ei ddarparu i rieni yn ymwneud â bocsys bwyd iach.

Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldeb a datblygu dealltwriaeth glir o fyw a gweithio gyda'i gilydd mewn cymuned. Mae hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus yn rhan annatod o gwricwlwm yr ysgol, gan gynnwys ei darpariaeth allgyrsiol da.

Mae cysylltiadau effeithiol ag ystod o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol, fel y gwasanaeth iaith a lleferydd a'r gwasanaeth lles addysg. Mae'r cysylltiadau hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion a rhieni. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud yn dda, ac yn cyfrannu'n sylweddol at eu cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer adnabod a monitro disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n nodi anghenion yn gynnar ac yn rhoi strategaethau ymyrraeth priodol ar waith, ac mae'r rhain yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da dros amser. Mae gan gynlluniau addysg unigol dargedau clir sy'n mynd i'r afael ag anghenion disgyblion yn briodol. Mae staff yn cynnwys rhieni'n llawn wrth adolygu cynllun addysg eu plentyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Er bod yr ysgol wedi gweithio'n galed yn ddiweddar i amlygu pwysigrwydd gwella presenoldeb trwy gylchlythyrau a rhannu gwybodaeth, mae cyfraddau presenoldeb yn isel o hyd o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos gofalgar a chynhwysol. Mae pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu awyrgylch sy'n meithrin parch a goddefgarwch. Gall pob disgybl fanteisio'n gyfartal ar y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau o ansawdd da i gynorthwyo addysgu a dysgu. Mae digonedd o adnoddau i ddatblygu medrau TGCh a chânt eu defnyddio'n helaeth gan ddisgyblion i ddatblygu eu medrau ymchwil.

Mae llawer o arddangosiadau creadigol a defnyddiol trwy'r adeilad cyfan sy'n cynnwys enghreifftiau da o waith disgyblion. Mae'r rhain yn cyfrannu'n sylweddol at greu amgylchedd symbylol a deniadol. Maent yn dathlu ac yn cynorthwyo dysgu a chyflawniad disgyblion yn dda.

Mae adeilad yr ysgol o safon dda, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a chadw'n dda. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'i hardaloedd awyr agored, a gall pob disgybl ddefnyddio'r maes chwarae helaeth. Mae'r cyfleusterau dysgu awyr agored, gan gynnwys gardd yr ysgol a'r offer 'antur', yn symbylol ac yn annog disgyblion i fod yn greadigol yn ystod gwersi ac yn ystod amser egwyl.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn ymrwymedig i godi safonau disgyblion a gwella gwaith yr ysgol. Maent yn annog yr holl aelodau staff i gydweithio'n agos â'i gilydd, ac mae hyn yn helpu i greu ethos cynorthwyol ysgol-gyfan ar sail gwaith tîm da. Mae cyfarfodydd rheolaidd i drafod cynllunio ac anghenion dysgu disgyblion, ac i rannu dealltwriaeth gyffredin o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella.

Mae trefniadau clir ar waith i reoli perfformiad yr holl staff, sy'n cael targedau datblygu personol â her briodol sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol.

Gwna'r ysgol gynnydd da o ran cyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn rhoi sylw da i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, sydd wedi arwain at welliannau i safonau cyflawniad disgyblion, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol o'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o berfformiad disgyblion, yn ogystal â gwybodaeth dda am y blaenoriaethau ar gyfer gwella a chyllid yr ysgol. Maent yn rhan annatod o'r broses hunanarfarnu barhaus ac, o ganlyniad, mae eu rôl o ran monitro darpariaeth yr ysgol a herio'r ysgol fel cyfaill 'beirniadol' wedi ei hen sefydlu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau clir ac effeithiol ar gyfer hunanarfarnu, sy'n galluogi'r uwch dîm rheoli a staff i gael darlun a dealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd y mae angen eu datblygu.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gynhwysfawr, sy'n canolbwyntio'n glir ar wella safonau a lles disgyblion. Mae'n defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwi dosbarthiadau, dadansoddi data perfformiad, monitro darpariaeth a chraffu ar waith disgyblion. O ganlyniad, bu'r ysgol yn effeithiol iawn o ran sicrhau gwelliant parhaus dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r ysgol yn defnyddio barn staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni yn llwyddiannus. Mae hon yn nodwedd gref.

Mae cysylltiad clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun gwella ysgol. Mae'r cynllun yn fanwl ac yn nodi blaenoriaethau priodol, ynghyd â chamau gweithredu ac amserlenni addas. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys targedau mesuradwy a phenodol sy'n cysylltu'n dda â gwella safonau disgyblion. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd yn rheolaidd, ac mae hyn wedi arwain at welliannau gweladwy, er enghraifft mewn safonau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, a medrau dwyieithog disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae partneriaethau â rhieni yn gryf. Maent yn teimlo'n wybodus a'u bod yn cael eu cynorthwyo, a gallant fynd at y staff yn hyderus. Caiff rhieni eu cynnwys yn effeithiol yn nysgu eu plant, er enghraifft trwy ddefnyddio tasgau gwaith cartref pwrpasol. Maent yn codi swm sylweddol o arian bob blwyddyn i alluogi'r ysgol i wella ei hadnoddau, yn enwedig ar gyfer TGCh.

Mae partneriaethau â chapeli ac eglwysi lleol yn gryf. Mae cysylltiadau â busnesau lleol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ehangu eu profiadau a datblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd da. Mae ymgysylltiad disgyblion â phrosiectau lleol yn ategu eu gwaith trawsgwricwlaidd yn dda, yn enwedig mewn hanes. Mae hyn wedi gwella eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd bod yn rhan o gymuned.

Mae trefniadau trosglwyddo effeithiol i ddisgyblion sy’n symud i’r ysgol uwchradd, ac mae ystod o weithgareddau pontio pwrpasol. Mae’r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio’n dda ar lythrennedd a rhifedd, cynllunio cydweithredol a chyfleoedd i athrawon rannu arfer dda a helpu i baratoi disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol â’r ysgol uwchradd ac ysgolion cynradd lleol eraill i drafod cynllunio ar gyfer gwella, a chymedroli a safoni gwaith disgyblion. Mae hyn wedi sicrhau ansawdd a chysondeb gwell yn asesiadau’r ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff â chymwysterau addas, ac mae arweinwyr yn defnyddio eu harbenigedd yn dda i gyflwyno’r cwricwlwm yn briodol a chyfoethogi addysgu a dysgu. Mae’r ysgol yn manteisio i’r eithaf ar rugl der staff yn y Gymraeg, sy’n sicrhau bod gan lawer o ddisgyblion fedrau llafar da iawn.

Mae’r trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol yn dda. Mae’r rhaglen hyfforddi i’r holl aelodau staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd iddynt wella eu medrau. Mae trefniadau cynllunio, paratoi ac asesu yn bodloni gofynion statudol.

Mae’r holl aelodau staff yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol y tu mewn i’r ysgol a’r tu hwnt iddi. Un ffocws penodol oedd archwilio ffyrdd i wella safonau ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae athrawon yn rhannu arfer dda yn rheolaidd, er enghraifft trwy arsylwi ei gilydd yn addysgu, ac mae hyn wedi sicrhau safonau addysgu gyson dda trwy’r ysgol gyfan.

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadeilad, adnoddau a chyllideb yn dda ac mae rheolaethau ariannol da ar waith. Mae’r ysgol yn defnyddio grantiau penodol, fel y grant amddifadedd disgyblion, yn effeithiol iawn i ddarparu amser addysgu ychwanegol i gynorthwyo grwpiau ymyrraeth, yn enwedig i wella eu medrau llythrennedd cynnar.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy’r ysgol, ac yn cyflawni’n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. O ystyried y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602176 - Ysgol Gynradd Kingsland**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 177 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 19.2 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 18 | 20 | 20 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 80.0 | 85.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 20 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 95.0 | 94.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 22.2 | 25.0 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 20 | 20 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 90.0 | 85.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 10.0 | 20.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 20 | 20 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.4 | 85.0 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 5.6 | 55.0 | 35.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602176 - Ysgol Gynradd Kingsland**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 177 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 19.2 |
| Grŵp PYD | 3 (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 21 | 9 | 7 | 23 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 71.4 | 88.9 | 100.0 | 91.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 9 | 7 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 76.2 | 88.9 | 100.0 | 95.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 9.5 | 22.2 | 57.1 | 30.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 9 | 7 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.5 | 88.9 | 100.0 | 91.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 14.3 | 22.2 | 57.1 | 30.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 9 | 7 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 71.4 | 88.9 | 100.0 | 95.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 30.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion er mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 75 | 75<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 75 | 71<br>95%<br>92% | 4<br>5%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 75 | 74<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 75 | 73<br>97%<br>97% | 2<br>3%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 75 | 74<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 75 | 70<br>93%<br>96% | 5<br>7%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 75 | 75<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 75 | 75<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 75 | 73<br>97%<br>91% | 2<br>3%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 75 | 74<br>99%<br>95% | 1<br>1%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 75 | 61<br>81%<br>77% | 14<br>19%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 75 | 73<br>97%<br>84% | 2<br>3%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion er mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 38 | 34 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 38 | 35 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 38 | 31 | 7 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 36 | 26 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 37 | 19 | 14 | 1 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 51% | 38% | 3% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 37 | 31 | 4 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 84% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 38 | 30 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 38 | 24 | 11 | 1 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 63% | 29% | 3% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 38 | 23 | 10 | 1 | 0 | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 61% | 26% | 3% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 38 | 26 | 11 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 68% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 38 | 31 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 38 | 18 | 12 | 0 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 47% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 38 | 21 | 12 | 5 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 55% | 32% | 13% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 38 | 26<br>68% | 10<br>26% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 37 | 19<br>51% | 15<br>41% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 38 | 23<br>61% | 15<br>39% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 32 | 13<br>41% | 13<br>41% | 1<br>3% | 0<br>0% | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 37 | 22<br>59% | 15<br>41% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 38 | 32<br>84% | 6<br>16% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Dylan Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tristan Roberts | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.